**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: SF/MD/2942/13

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Tachwedd 2013

Annwyl Ann

Rydym yn cyfeirio at eich llythyr dyddiedig 29 Hydref, sy'n amlinellu eich prif gasgliadau o'ch sesiwn graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15. Gweler isod ein hymatebion i'r materion yr ydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth amdanynt.

**Gwariant y GIG ar wasanaethau i blant a phobl ifanc**
Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn amhriodol i Lywodraeth Cymru ofyn i Fyrddau Iechyd Lleol wario symiau penodol ar wasanaethau i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor fod ystyriaeth gwerth am arian yn flaenoriaeth. Enghraifft o weithio effeithiol ar draws asiantaethau, yn enwedig yng nghyd-destun cyflawni gwerth am arian yw Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Ar 17 Gorffennaf 2013, lansiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi y Cynllun sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer y 10 mlynedd nesaf gyda chamau gweithredu ac amserlenni ar gyfer cyflawni. Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd wahanol bolisïau a rhaglenni sy'n effeithio ar y blynyddoedd cynnar ac sy'n dylanwadu arnynt. Mae'r Cynllun yn gweithio ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau a thrwy ddarparu diben cyffredin a fydd yn ysgogi gwaith effeithiol rhwng asiantaethau.

**Hawliau Plant**
Mae'r Dirprwy Weinidog yn hyderus na fydd y lleihad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Trechu Tlodi yng nghyllideb Hawliau Plant yn effeithio ar allu'r Llywodraeth i weithredu'r ystod lawn o ddyletswyddau o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r gyllideb mewn cysylltiad â'r Mesur yn parhau i fod yn £0.5 miliwn. Mae'r lleihad yn dod o ddwy elfen:

- yr angen i ddod â hen raglenni i ben; ac
- uno eraill gyda chyn lleied o effaith â phosibl ar wasanaethau rheng flaen.

**Cymorth Hosbis**

Mae'r lleihad i'r gyllideb hosbis yn dod o ganlyniad i effaith gylchol arbedion a nodwyd yn 2013-14. Dyrennir cyllid yn ôl fformiwla gadarn yn seiliedig ar anghenion a ddatblygwyd gan y Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol, a nodwyd yr arbedion hyn gan ddefnyddio'r fformiwla hon. Felly, nid oes toriadau mewn termau real i'r swm sydd ar gael yn 2014-15 ac nid oes newid yn y symiau sydd ar gael i wasanaethau rheng flaen o gymharu â 2013-14. Mae'r swm a ddarperir i hosbisau plant ar gyfer darparu gofal arbenigol yn parhau yn gyson â'r hyn a ddarparwyd yn 2012-13 a 2013-14.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed**
Gwnaethoch ofyn am gael rhagor o wybodaeth am y gwaith rydym yn ei gynnal ar y ddau gyffur a roddir amlaf i bobl ifanc sydd ag ADHD, yn gyntaf er mwyn monitro'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael y feddyginiaeth ac, yn ail, i werthuso achosion neu resymau dros gynnydd o'r fath.

Mae fy swyddogion yn monitro patrymau presgripsiynau pob meddyginiaeth yn rheolaidd ond nid ydynt wedi comisiynu gwaith penodol i werthuso achosion neu resymau dros unrhyw gynnydd yn nefnydd meddyginiaethau i drin ADHD. Byddwn yn cynnal gwaith dadansoddi pellach o dueddiadau o ran presgripsiynau dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r gwaith i fonitro newidiadau eisoes yn ei le. Mae manylion llawn am y presgripsiynau a roddir yn y gymuned ar gael i Fyrddau Iechyd drwy system CASPA.net, a gaiff ei ddiweddaru'n fisol ac sy'n rhoi manylion am gostau a chyfaint presgripsiynau dros amser. Disgwylir i Fyrddau Iechyd Lleol fonitro tueddiadau presgripsiynau a chymryd camau gweithredu priodol yn achos ymddygiad rhoi presgripsiynau sy'n amhriodol. Os bydd angen gwaith dadansoddi data pellach yn genedlaethol, gallwn drefnu i hynny gael ei ddarparu, naill ai yn ad hoc neu'n rheolaidd.

Mae'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc ag ADHD yn fater rhyngwladol ac mae wedi effeithio ar wasanaethau ledled y DU a'r byd gorllewinol. Y prif ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yw:

- Cynnydd posibl mewn achosion
- Cynnydd sicr mewn ymwybyddiaeth ohono
- Diffyg gwasanaethau ataliol cadarn, fel sgiliau rhianta cynnar, ledled Cymru
- Disgwyliadau gan y cyhoedd a'r angen am ddiagnosis er mwyn cael cymorth ym myd addysg ac, o bosibl, er mwyn cael budd-daliadau

**Rhaglenni Imiwneiddio a Sgrinio i Blant**
Yng nghyllideb 2014-15, mae darpariaeth o £7.6 miliwn o ran rhaglenni brechiadau ac imiwneiddio o fewn y Cam Gweithredu Cyflawni Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Targedig ac nid y Cam Gweithredu Hyrwyddo Gwelliant a Gweithio Iach, a gafodd ei ddyfynnu yn anghywir yn y papur tystiolaeth a baratowyd ar gyfer y cyfarfod ar 16 Hydref.

Gan gydnabod pwysigrwydd y maes hwn, sef gwariant ataliol, rydym yn ymroddedig i ariannu'r rhaglen brechiadau ac imiwneiddio yn llawn. Darparwyd costau ychwanegol y rhaglenni newydd fel rhan o'r cronfeydd ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid, a byddwn yn disgwyl i'r gwariant ar Raglen Brechiadau Cymru Gyfan godi'n sylweddol i tua £16 miliwn erbyn 2015-16. Mae'r cyllid ychwanegol hwn ar hyn o bryd yn dod o Gam Gweithredu Darparu Gwasanaethau Craidd y GIG.

Ni allwn ragweld yn gywir y cyfraddau a fydd yn manteisio ar gyfer y rhaglenni newydd hyn gan eu bod yn seiliedig ar alw, ac ni allwn ragweld pwy fydd am gymryd rhan. Fodd bynnag, rydym yn monitro'r sefyllfa yn agos ac yn adolygu'r gyllideb fel y bo angen.

**Rhaglenni Sgrinio**
Mae'r holl raglenni sgrinio, gan gynnwys y rhai sy'n benodol ar gyfer plant, wedi'u cynnwys o fewn cyllid craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyllid ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gynnwys o fewn Cam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus. Nid yw'r arian hwn wedi'i neilltuo ac felly mae'n rhoi hyblygrwydd i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddyrannu adnoddau yn ôl anghenion. Caiff £3.4 miliwn ei wario ar raglenni sgrinio plant gan gynnwys sgrinio clyw babanod, sgrinio smotyn gwaed a sgrinio cynenedigol.

**CAFCASS Cymru**

Roedd y newid a ddisgwyliwyd i'r System Cyfiawnder Teuluol yn un o ysgogyddion annatod Rhaglen Newid CAFCASS Cymru a ddechreuodd yn 2011.

Mae'r gyllideb, sy'n parhau i fod yr un fath ag yr oedd yn 2012-13, wedi galluogi CAFCASS Cymru i ymgymryd â rôl arweiniol yn Diwygio Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru. Er gwaetha'r ffaith bod ceisiadau am ofal yn parhau i fod yr ail uchaf yn hanes y sefydliad a chynnydd o 29% mewn atgyfeiriadau cyfraith breifat ar gyfer diogelu yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol, mae CAFCASS Cymru bellach wedi dileu ei ôl-groniad o achosion heb eu neilltuo.

Mae CAFCASS Cymru wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i gyflwyno peilot Llywydd yr Adran Deuluol o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig a ddaeth i rym ar 2 Medi yn ardal Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol Gwent a Chaerdydd, ac ar 7 Hydref 2013 ar draws gweddill yr ardaloedd Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol yng Nghymru. Mae cadw'r gyllideb yn sicrhau bod CAFCASS Cymru yn gallu cwblhau ei raglen newid ac ateb heriau'r Rhaglen Diwygio Cyfiawnder Teuluol.

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Gwenda Thomas

**Gwenda Thomas AM**
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services